# Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

## ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2023-24 a 2024-25



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi seiliau statudol i ddiogelu oedolion ac yn sefydlu dull partneriaeth cryf i sicrhau bod oedolion ag anghenion gofal a chymorth y cael eu diogelu rhag niwed. Mae'r Ddeddf yn manylu ar ddyletswyddau Diogelu Awdurdodau Lleol (Rhan 7) ac wedi'i chefnogi gan ganllawiau statudol a Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol.

https://diogelu.cymru/cy/

Er mwyn cryfhau trefniadau diogelu ymhellach yng Nghymru, sefydlodd y Ddeddf Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bartner i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## 1. Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) bellach wedi'i hen sefydlu ac yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae ganddo dair prif swyddogaeth:

1. Rhoi cefnogaeth a chyngor i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol
2. Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu plant ac oedolion yng Nghymru
3. Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny

Gweler y ddolen isod i wefan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sy'n cynnwys adroddiad blynyddol 2023-24 a chynlluniau gwaith cysylltiedig.

Hafan - Bwrdd Diogelu Cymru

## 2. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (BDRh) Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi bod ar waith ers 2016 ac fe'i cyflwynwyd i ddisodli byrddau diogelu lleol. Cyflawnir swyddogaethau statudol y bwrdd gan Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaeth Prawf (Cymru). Gall y bwrdd hefyd gynnwys unigolion neu gyrff eraill a ystyrir ganddo fel rhai a ddylai gael eu cynrychioli ac sy'n cynnal neu'n ymwneud â gweithgareddau neu swyddogaethau'n gysylltiedig â phlant neu oedolion yn ei ardal.

Mae gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ddwy ffrwd waith wahanol, y naill ar gyfer plant (CYSUR) a'r llall ar gyfer oedolion (CWMPAS). Caiff y ddwy eu goruchwylio gan fwrdd rhanbarthol cyfun sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r bwrdd wedi'i hen sefydlu ac yn uchel ei barch yn genedlaethol. Mae ganddo drefniadau llywodraethu cadarn ar waith a gefnogir gan uned fusnes hynod effeithiol. Mae'n parhau i hwyluso trefniadau gwaith amlasiantaeth llwyddiannus sy'n aml yn arwain at arferion diogelu gwell a chyson ar draws y rhanbarth. Cyfarwyddwr Cymunedau Sir Gaerfyrddin yw cadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac mae'n chwarae rhan ragweithiol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd

yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol. O dan ei arweinyddiaeth, mae'r bwrdd yn cadw ffocws clir ar anghenion a phrofiadau plant ac oedolion sydd angen cymorth statudol.

Er mwyn ymateb i anghenion plant ac oedolion sy'n wynebu risg o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r bwrdd yn monitro cydymffurfiaeth ranbarthol â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol, yn cynnal adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion (a elwir bellach yn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru) ac unrhyw weithgarwch dysgu a gwella cysylltiedig. Mae'n cynnal digwyddiadau hyfforddi rhanbarthol ac yn rhannu arfer da lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr rheng flaen yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn gwneud cyfraniad pwysig at waith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac yn cyflawni rôl arweiniol neu weithredol yn ei holl is-grwpiau a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig.

Yn ogystal â hyn, mae Sir Gaerfyrddin yn arwain y prosiect Diogelu Linc, sef prosiect rhanbarthol cyffrous sy'n anelu i rannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws sefydliadau partner er mwyn cefnogi trafodaethau Diogelu. I ddechrau, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar Blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond bydd yn datblygu i gynnwys oedolion yn y dyfodol agos. Mae 4 prif sefydliad yn cymryd rhan yn y cam cyntaf: Heddlu Dyfed-Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Bydd tîm y prosiect yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe drwy eu SeRP (Platfform eYmchwil Diogel) i adeiladu a chynnal y data rhanbarthol. CLlLC a ddarparodd y cyllid cychwynnol ar gyfer y gwaith hwn.

Gweler y ddolen isod i Wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n cynnwys adolygiadau ymarfer cyhoeddedig ac adroddiad y Bwrdd Rhanbarthol ar gyfer 2023-24.

Cysur | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Diogelu plant ac oedolion

## 3. Diogelu Corfforaethol Sir Gaerfyrddin

Mae 'Diogelu Corfforaethol' o fewn Cynghorau yn disgrifio ymrwymiad y Cyngor o ran polisi a'r trefniadau sydd ganddo ar waith i sicrhau bod ei holl Gyfarwyddiaethau a'i weithwyr yn chwarae eu rhan wrth ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion a allai fod mewn perygl o niwed.

(Canllawiau Arfer Da Diogelu Corfforaethol - CLlLC)

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn cydnabod pwysigrwydd cael trefniadau diogelu corfforaethol effeithiol ac mae ganddo systemau sefydledig ar gyfer goruchwyliaeth reolaidd. Yn nhymor yr hydref 2023, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad dilynol (o 2015) o'r trefniadau Diogelu Corfforaethol sydd ar waith yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, ac o ystyried treigl amser, nododd feysydd yr oedd angen rhoi sylw ychwanegol iddynt. Datblygwyd cynllun gweithredu ar unwaith ac ymdriniwyd â meysydd ffocws drwy gydol 2024. Mae enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn cynnwys hyfforddiant diogelu gorfodol, rhaglen o archwiliadau diogelu, diwygio polisïau a chryfhau'r strwythur llywodraethu.

### Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin (GGLlSG)

Mae Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin (GGLlSG) sydd wedi'i hen sefydlu yn dystiolaeth bellach o ymrwymiad parhaus yr holl asiantaethau lleol i gydweithio i wella trefniadau diogelu o fewn y sir. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i blant ac oedolion sy'n wynebu risg drwy wella arferion gweithio ar y cyd a cheisio atebion i heriau gweithredol

amlasiantaeth. Mae'n gyfrifol am gynnal archwiliadau amlasiantaeth, nodi a chynnal goruchwyliaeth dros Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion Sir Gaerfyrddin (a elwir bellach yn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl - ADUS yng Nghymru) ac unrhyw wersi a ddysgir yn gysylltiedig â hynny. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Benaethiaid y gwasanaethau Plant ac Oedolion, sy'n cadarnhau ei bwysigrwydd.

**Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Sefydlodd Sir Gaerfyrddin ei GGLl VAWDASV yn 2024 i sicrhau dull cydlynol o fynd i'r afael â phob math o gam-drin domestig a rhoi cymorth i oroeswyr. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu cynllun cyflawni lleol a fydd yn cefnogi'r strategaeth VAWDASV ranbarthol. Cysur | Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru

Ceir dolen isod i adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol Sir Gaerfyrddin.

Adroddiad Blynyddol.pdf

## 4. Diogelu Oedolion - Sir Gaerfyrddin

Mae'r trefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a chorfforaethol yn parhau i gefnogi a chryfhau ymrwymiad parhaus Sir Gaerfyrddin i ddiogelu ei ddinasyddion rhag camdriniaeth neu esgeulustod.

Mae cwmpas dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu oedolion yn esblygu. Yn ogystal â chyflawni dyletswyddau diogelu statudol yr awdurdod lleol a nodir yn Rhan 7 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'r tîm Diogelu Oedolion yn chwarae rhan weithredol wrth reoli neu gyfrannu at nifer o systemau Diogelu Amlasiantaeth. Mae hyn yn cynnwys y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn gysylltiedig â dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu hymestyn i gynnwys dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern a'r rhai sydd mewn perygl o'r hyn a elwir yn "Drais ar sail Anrhydedd". Prif ffocws y MARAC yw diogelu'r dioddefwr, ac unrhyw blant neu oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r tîm hefyd yn cymryd rhan yn ycyfarfodydd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) ynghylch unigolion sy'n achosi risg i'r cyhoedd.

Mae'r tîm diogelu yn cydlynu trefniadau i gefnogi unigolion sy'n arddangos Ymddygiadau Risg Uchel gan gynnwys hunan-esgeulustod sy'n cynnwys rheoli risg a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol asiantaethau. Ym mis Chwefror 2023, rhoddodd y tîm y gweithdrefnau rhanbarthol ar waith ar gyfer ymateb yn gyflym i hunanladdiad tybiedig, ac mae'r rheiny bellach wedi'u hymgorffori yn y trefniadau diogelu. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig yn brydlon i'r rhai yr effeithiwyd arnynt neu a allai wynebu risg o niwed yn dilyn marwolaeth ddiweddar drwy hunanladdiad tybiedig. Mae'r dull hwn yn parhau i gael ei werthuso'n rheolaidd.

Systemau diogelu effeithiol yw'r rhai lle bydd pob asiantaeth yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i rai sy'n wynebu risg, gan gynnwys rhannu gwybodaeth berthnasol yn brydlon. Mae'r tîm diogelu oedolion yn gweithio'n agos gyda'r holl asiantaethau partner statudol, gan gynnwys Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn ogystal â nifer o sefydliadau eraill i sicrhau bod y camau diogelu mwyaf priodol yn cael eu cymryd gan y bobl gywir, ar yr amser cywir.

Mae tîm Diogelu Oedolion Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith

## 5. Y Tîm Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Goruchwylir y tîm Diogelu Oedolion gan Uwch-reolwr â chyfrifoldebau diogelu strategol, gan gynnwys Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) Sir Gaerfyrddin, trefniadau Diogelu Corfforaethol Sir Gaerfyrddin a threfniadau Sianel statudol Sir Gaerfyrddin, sy'n rhan o Strategaeth Prevent y DU (sy'n sicrhau cefnogaeth amlasiantaeth gynnar ar gyfer unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth). Mae gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb rheolwr llinell dros y rheolwr tîm Diogelu Gweithredol a DoLS ac Ymgynghorydd Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) sy'n dal portffolio mawr o waith. Mae'r Uwch-reolwr yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae'r Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion a DoLS yn gyfrifol am sicrhau bod dyletswyddau statudol Diogelu a DoLS yn cael eu cyflawni'n effeithiol yn weithredol. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r timau gweithredol a'r holl swyddogaethau sicrhau ansawdd.

Mae'r tîm Diogelu Oedolion a DoLS yn gymharol fach, ac mae cyfnodau estynedig o absenoldeb ymhlith y staff a chyfnodau lle bu swyddi'n wag wedi amharu arno. Ym mis Gorffennaf 2024, dechreuodd y tîm gweithredol diogelu dreialu strwythur staffio amgen i sicrhau mwy o wydnwch. Yn sgil y strwythur, trowyd swydd wag bresennol yn ddwy swydd Swyddog Cymorth Dyletswydd Diogelu newydd, i gefnogi'r Gweithwyr Cymdeithasol cymwysedig drwy sgrinio adroddiadau diogelu cychwynnol, casglu gwybodaeth ychwanegol a chysylltu a'r rhai a luniodd yr adroddiadau. Bydd y dull hwn yn cael ei werthuso yn nhymor y gwanwyn 2025.

Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol yn y tîm diogelu yn parhau i gwblhau ymholiadau diogelu statudol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (adran 126), ymholiadau ac ymchwiliadau estynedig lle bo'n briodol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir ac Unigolion mewn Swydd o Ymddiriedaeth.

Diwygiodd y tîm DoLS ei strwythur yn 2024 hefyd drwy drosi swydd wag bresennol yn swydd Sicrhau Ansawdd DoLS. Bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod pob cais DoLS yn cael ei ddyrannu a'i ddychwelyd mewn modd amserol ac yn bodloni'r safonau sicrhau ansawdd gofynnol. Mae'n gweithio'n agos gyda chartrefi gofal yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod amodau a osodir wrth roi awdurdod DoLS yn cael eu bodloni a bod trefniadau eiriolaeth priodol ar waith. Bydd y strwythur peilot hwn yn cael ei adolygu yn nhymor yr haf 2025.


Mae'r tîm DoLS yn cynnwys tri Asesydd Budd Pennaf profiadol (Gweithwyr Cymdeithasol Cymwysedig) y mae pob un ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae defnyddio'r Gymraeg yn eithriadol o bwysig yng nghyd-destun yr asesiadau hyn, gan fod hynny'n hanfodol i deall yn llawn beth yw safbwyntiau a dymuniadau'r unigolyn o ran gofal a llety, ac mae'n hollbwysig wrth asesu galluedd meddyliol. Rôl yr asesydd yw penderfynu a yw unrhyw weithred i amddifadu o ryddid, neu gynlluniau i wneud hynny er budd pennaf yr unigolyn, yn angenrheidiol i atal niwed, ac yn ymateb cymesur i debygolrwydd a difrifolrwydd y niwed hwnnw.

Mae aelodau'r tîm diogelu a DoLS yn parhau i dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rolau, ac i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i ymarfer yn rhan o'r drefn arferol. Mae hyn yn

cynnwys yr hyfforddiant addysgwr ymarfer gwaith cymdeithasol sydd wedi galluogi'r tîm i gefnogi tri myfyriwr gwaith cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae'r Uwch-reolwr yn cynnal diwrnodau datblygu gwasanaeth rheolaidd lle mae'r tîm yn cyfrannu'n weithredol at ddadansoddi perfformiad y tîm a nodi gwelliannau i wasanaethau. Mae'r dull hwn o wella'n barhaus yn tystio i ymrwymiad cyffredin o fewn y tîm i sicrhau canlyniadau da i oedolion sy'n wynebu risg a dinasyddion eraill, gan gyflawni safonau gwasanaeth ardderchog a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â dyletswyddau statudol.

## Strwythur y Tîm Diogelu/DoLS




## 6. Diogelu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cefnogi newid mewn ymarfer sy'n canolbwyntio ar safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r sawl sy'n wynebu risg. Mae hyn yn fan cychwyn amlwg ar gyfer unrhyw ymyrraeth diogelu.

Mae'r tîm diogelu, gyda chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill, yn cymryd rhan ragweithiol wrth ymweld a siarad yn uniongyrchol â'r oedolyn sy'n wynebu risg, i gael dealltwriaeth glir o'r sefyllfa a'r risgiau o safbwynt yr oedolyn hwnnw. Mae'n bwysig sicrhau bod unigolion yn bartneriaid cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol. Mae'r datrysiadau'n seiliedig ar y canlyniadau a ddymunir gan yr unigolyn lle bynnag y bo modd ac fe'u cefnogir gan y gweithwyr proffesiynol dan sylw.

Mae diogelu oedolion yn parhau i fod yn faes gwaith heriol gan angen taro cydbwysedd gofalus rhwng ymyrryd i reoli risgiau canfyddedig a pharchu hawl oedolyn i wneud penderfyniadau annoeth. Mae cymhwyso egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005)

yn rhan annatod o ymyriadau diogelu gydag oedolion ac mae cynnwys gwasanaeth eiriol annibynnol yn ystyriaeth allweddol.

## 7. Archwiliadau/Arolygiadau

Mae archwiliadau ac arolygiadau rheolaidd yn rhan annatod o fecanweithiau sicrhau ansawdd y tîm diogelu. Yn ogystal â chraffu mewnol ac allanol annibynnol, mae'r tîm yn adolygu ei systemau, ei brosesau, ei brosesau penderfynu a'i ganlyniadau er mwyn sicrhau bod safonau'n parhau i fod yn uchel.

Cynhelir yr archwiliadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys hunanarchwiliadau, archwiliadau gan gymheiriaid ac archwiliadau rheoli. Fe'u trafodir mewn modd adeiladol mewn cyfarfodydd tîm ac wrth oruchwylio er mwyn sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir â chyfleoedd i wella ac achosion o ddiffyg cysondeb.

Mae'r tîm diogelu yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewnol ac allanol ar draws pob adran o fewn cyngor Sir Gaerfyrddin. Mae'r tîm yn gweithio'n arbennig o agos gyda chydweithwyr contractio a chomisiynu, yn cyfnewid gwybodaeth ac ym ymateb i bryderon ynghylch gwasanaethau a gomisiynir, e.e. cartrefi gofal preswyl. Mae'r ddau dîm yn adrodd am fanteision a natur adeiladol y trefniant hwn i gydweithio'n agos. Er mwyn sicrhau parhad, mae un swyddog diogelu penodol yn canolbwyntio'n llwyr ar bryderon a godir am ddarparwyr gwasanaeth, gan sicrhau bod patrymau neu dueddiadau'n cael eu hadnabod yn gynnar, ac yr ymdrinnir â'r rheiny mewn modd cydweithredol â darparwyr gwasanaeth, comisiynwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru ac asiantaethau eraill priodol.

## 8. Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (GAChO)

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, sy'n galluogi swyddog awdurdodedig (ac unrhywun arall a enwir yn y gorchymyn hwnnw) i siarad ag oedolion yn breifat os amheuir eu bod yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, a bod rhywun arall yn atal hynny rhag digwydd. Y pwrpas yw sefydlu a yw'r unigolyn yn gwneud penderfyniadau'n rhydd, asesu a yw'n wynebu risg, a chanfod a ddylid gweithredu mewn unrhyw ffordd.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi teimlo ei bod yn briodol gwneud cais am orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn dros y cyfnod adrodd hwn.

## 9. Adolygiadau Ymarfer Oedolion (AYO) - a elwir yn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUS) o fis Mawrth 2025

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol drefnu cynnal AYO os gwyddys bod oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu fod amheuon o hynny, a bod yr oedolyn wedi:

- marw
- dioddef anaf a allai fygwth ei fywyd neu
- dioddef amhariad difrifol a pharhaol i'w iechyd

Diben yr adolygiad yw nodi unrhyw gyfleoedd i ddysgu neu wella mewn ymarfer amddiffyn oedolion rhyngasiantaethol yn y dyfodol. Bydd digwyddiad dysgu yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a bydd y gweithwyr proffesiynol fu'n ymwneud â'r oedolyn a'i deulu yn bresennol.

Cwblhaodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol un Adolygiad Ymarfer Oedolion yn Sir Gaerfyrddin dros y cyfnod adrodd hwn. Mae'r adroddiad wedi'i gyhoeddi ar wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru a bydd Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin yn sicrhau bod y cynllun gweithredu cysylltiedig yn cael ei ddatblygu.

## 10. Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth (FfPA)


Gellir cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth pan nad yw'r amgylchiadau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion ond lle nodwyd cyfleoedd i ddysgu. Mae'r FfPA yn fecanwaith arall er mwyn nodi cyfleoedd i ddysgu fel sefydliad, i wella ansawdd gwaith gyda theuluoedd, a chryfhau gallu gwasanaethau i gadw pobl mor ddiogel ag sy'n bosibl. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cwblhau un FfPA ac ar hyn o bryd yn adolygu dau ymyriad i nodi gwersi i'w dysgu ar sail thema.

## 11. Data Perfformiad Diogelu Oedolion

Pennir mesurau perfformiad Diogelu Oedolion gan Lywodraeth Cymru, ac adroddir wrth y Llywodraeth yn flynyddol am y mesurau hynny. Adroddir bob chwarter hefyd ar fesurau perfformiad ychwanegol wrth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Caiff y data hyn eu dadansoddi er mwyn deall yn well unrhyw newidiadau i'r galw, i batrymau ac i dueddiadau, a ddefnyddir i ddylanwadu ar arferion cyfredol a'u herio, ac i oleuo strategaethau amddiffyn ac atal yn y dyfodol. Bu sicrhau dehongliad cyson o Weithdrefnau Diogelu Cymru a'r mesurau perfformiad Diogelu Oedolion yn her. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn arwain darn o waith wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn cydweithrediad â Phrifysgol John Moores Lerpwl i adolygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a sicrhau bod y data a gesglir yn gywir, yn ystyrlon, ac yn gymaradwy. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2025.

Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi'i thynnu o System Gwybodaeth Reoli yr Awdurdod Lleol. Dangosir y mesurau perfformiad allweddol isod.

## Nifer yr adroddiadau am oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg




Gosododd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 **ddyletswydd** ar ‘asiantaethau partner perthnasol’ i roi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw oedolyn neu blentyn, gan gynnwys plant yn y groth, y maent yn amau eu bod yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu'n wynebu risg o hynny. Mae'n ddisgwyliedig hefyd i **bob** asiantaeth a sefydliad roi gwybod i'r awdurdod lleol am bryderon diogelu.


Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg fel rhywun:

- sydd yn profi camdriniaeth neu esgeulustod neu'n wynebu risg o hynny;
- sydd ag anghenion gofal a chymorth; ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny, sy'n methu â'i amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu'r risg o hynny

Mae cyfanswm yr adroddiadau diogelu oedolion a dderbynnir wedi bod yn cynyddu'n flynyddol, ond yn 2024/25 bu rhywfaint o ostyngiad i nifer yr adroddiadau. Mae nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn gyson â thueddiadau rhanbarthol (nid yw data 2024/25 wedi'u cymharu eto).


Mewn hyfforddiant diogelu a weithredwyd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, pwysleisiwyd y ddyletswydd gyfreithiol i adrodd, ac mae'n debygol bod hyn wedi cyfrannu at y cynnydd o'r naill flwyddyn i'r nesaf. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y gostyngiad bach yn y niferoedd a adroddwyd ar gyfer 2024/25 yn deillio o ddull mwy rhagweithiol o ailgyfeirio adroddiadau nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol.

## Nifer yr adroddiadau diogelu a arweiniodd at ymholiad (adran 126)




Pan fydd yr awdurdod lleol yn derbyn adroddiad diogelu, rhaid iddo benderfynu a oes achos rhesymol i amau bod yr oedolyn yn wynebu, neu y gallai wynebu, risg o gamdriniaeth neu esgeulustod. Os oes achos rhesymol i amau, mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod lleol i gynnal ymholiadau diogelu fel y nodir yn adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y prif resymau dros beidio â symud adroddiad ymlaen i ymholiad yw pan fo'r risg a nodwyd yn wreiddiol wedi'i dileu neu ei rheoli, neu os yw'r oedolyn yn gwrthod cymryd rhan yn yr ymholiad.


## Ymholiadau diogelu (a126) a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod



Y ôl canllawiau diogelu statudol ***“dylid cynnal ymholiadau diogelu o fewn 7 diwrnod fel arfer; fodd bynnag, ni ddylid eu rhuthro”***.

Mae nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod wedi parhau i ostwng ers 2020. Mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr amser y mae'n cymryd i gynnal ymholiadau, e.e. cymhlethdod y sefyllfa, anhawster wrth ymgysylltu â'r unigolyn, neu ddisgwyl cefnogaeth neu gymorth gan asiantaeth arall. Gall yr awdurdod lleol ddirprwyo ymholiadau statudol i'r asiantaeth neu'r ymarferydd mwyaf priodol, ond rhaid iddo fonitro cynnydd ac amserlenni. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd yr amser a gymerir i gwblhau'r ymholiadau weithiau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod lleol. Cofnodir rhesymau am ymholiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r 7 diwrnod. Caiff pob adroddiad diogelu ei sgrinio a'i osod yn nhrefn blaenoriaeth o fewn 1 diwrnod gwaith, gan ddechrau ymholiadau yn brydlon. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae Sir Gaerfyrddin yn arwain gwaith rhanbarthol gyda Phrifysgol John Moores Lerpwl, sy'n cynnwys dadansoddi ymholiadau diogelu a'r graddfeydd amser disgwyliedig. Mae'n amlwg hefyd fod absenoldebau staff wedi amharu ar ein gallu i gwblhau ymholiadau o fewn y 7 diwrnod a argymhellir.

## Trafodaethau Strategaeth




Pan dderbynnir adroddiad diogelu, bydd angen rhannu'r pryder ag asiantaeth neu sefydliad arall ar adegau. Cynhelir y trafodaethau hyn i ystyried lefel y risg, i nodi camau diogelu ar unwaith ac i ystyried a oes angen gweithredu ar y cyd. Nid oes angen i asiantaethau eraill gymryd rhan ym mhob adroddiad diogelu, e.e. os nad yw'r pryder yn ymwneud â mater troseddol, ni chaiff ei drafod â'r Heddlu. Mae nifer y trafodaethau strategaeth a gynhelir felly'n dibynnu ar natur y pryder ac ar yr angen i gynnwys asiantaethau.


Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd strategaeth pan fo angen cynnwys asiantaeth arall neu pan fo angen camau gweithredu dilynol neu barhaus i reoli risgiau. Mae gan Sir Gaerfyrddin

berthnasoedd gwaith rhagorol ag asiantaethau partner, ac mae ganddi brosesau wedi'u hen sefydlu i gyfathrebu a chynllunio ar y cyd.

Nid yw nifer y trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd yn arwydd o berfformiad da na gwael. Caiff y data ar gyfer y dangosydd hwn eu casglu ar ôl cau'r ymyriad, felly mae'n bosib y bydd gweithgarwch gwirioneddol wedi'i gynnwys mewn cyfnod adrodd data yn y dyfodol.


Mae'r defnydd o gyfleusterau cyfarfod o bell a gychwynnwyd yn ystod y pandemig yn parhau i wella presenoldeb mewn trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth yn sylweddol.

## Categorïau pryder




Esgeulustod yw'r categori pryder mwyaf a adroddir o hyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd natur eang y diffiniad. Mae'r data'n dangos, er bod nifer yr adroddiadau wedi cynyddu'n bennaf dros y pum mlynedd diwethaf, bod y math o bryderon yr adroddir amdanynt wedi aros yn gyson.


## Man lle digwyddodd y pryder honedig




Cartref yr unigolyn ei hun sydd uchaf o ran y fan lle digwyddodd y pryder honedig, a Chartrefi Gofal ar ôl hynny. Mae'r tueddiadau hyn yn ddisgwyliedig gan fod llawer o ofal yn cael ei ddarparu yn y lleoliadau hynny. Mae ymarferwyr sy'n gweithio yn yr amgylcheddau hyn yn

gyfarwydd â'u dyletswydd i roi gwybod am bryderon i'r awdurdod lleol ac felly'n gwneud hynny'n briodol. Nid yw llawer o'r pryderon a adroddir yn gyfystyr â cham-drin nac esgeulustod. Yn aml, digwyddiadau lefel isel ydyn nhw, lle mae angen datrysiad arall (e.e. digwyddiad untro lle bo gofalwr yn hwyr i ymweliad gofal cartref). Mae'r nifer fawr o adroddiadau ar gyfer y lleoliadau hyn yn tystio i'r modd yr eir ati'n rhagweithiol i adrodd i'r awdurdod lleol, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

## Nifer yr adroddiadau sy'n ymwneud ag Unigolion mewn Swydd o Ymddiriedaeth (PiPOT)




Yn rhan o'u dyletswyddau diogelu, rhaid i Awdurdodau Lleol ymateb i bryderon a godir ynghylch y rhai y mae eu gwaith, boed hwnnw'n waith cyflogedig neu wirfoddol, yn golygu eu bod yn dod i gysylltiad â phlant neu oedolyn sy'n wynebu risg.

Dylid cychwyn gweithdrefnau diogelu ym mhob achos lle honnir bod unigolyn sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg wedi gwneud y canlynol:

- Ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- O bosib wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg, neu sy'n cael effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg
- Ymddwyn tuag at blentyn, plant neu oedolion sy'n wynebu risg mewn modd sy'n dangos ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion

Mae codi ymwybyddiaeth barhaus mewn perthynas â'r ddyletswydd i roi gwybod am bryderon ynghylch Unigolion mewn Swyddi o Ymddiriedaeth wedi cyfrannu at y niferoedd uwch yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn hefyd wedi cael ei waethygu yn sgil diffyg eglurder yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, sydd wedi achosi dryswch ynghylch i bwy a phryd y mae'r gweithdrefnau'n berthnasol. Mae Sir Gaerfyrddin wedi gweithio'n agos gyda Bwrdd Gweithdrefnau Cenedlaethol Cymru a Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddiwygio'r adran hon o'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau mwy o eglurder a chysondeb. Yn sgil adolygu'r trothwyon yn lleol, mae adroddiadau amhriodol yn cael eu hailgyfeirio'n ôl i gyflogwyr ymdrin â nhw.

## 12. Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Mae Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yn sicrhau'r hawl i ryddid a diogelwch.

Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn fesurau diogelu pwysig i ddiogelu hawliau dynol. Dylai cartrefi gofal ac ysbytai eu cymhwyso lle nad oes gan unigolyn 18 oed neu hŷn y gallu meddyliol i gydsynio i'w drefniadau gofal a llety, ac y bydd angen ei amddifadu o'i ryddid. Ystyrir bod unigolyn wedi'i amddifadu o ryddid os yw dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus, ac nad yw'n cael gadael y fan lle mae'n derbyn gofal. Os ystyrir bod y trefniadau sydd ar waith i gadw unigolyn yn ddiogel er ei fudd pennaf, rhaid craffu arnynt a'u hawdurdodi "yn unol â gweithdrefn a nodir gan y gyfraith".

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a Chod Ymarfer DoLS yn egluro'r modd y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yng Nghymru eu bodloni eu hunain fod y penderfyniad i amddifadu o ryddid yn angenrheidiol, yn gymesur, yn lleiaf cyfyngus ac er budd pennaf yr unigolyn. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod gan yr unigolyn eiriolwr priodol a all weithredu ar ei ran a herio cyfreithlondeb y penderfyniad i'w ddal dan gadwad gerbron llys.

Ym mis Mawrth 2014, gostyngodd dyfarniad gan y Goruchaf Lys (P v Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer) y trothwy ar gyfer y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn effeithiol. Roedd y trothwy newydd yn golygu bod nifer sylweddol uwch o unigolion sy'n byw mewn cartrefi preswyl, cartrefi nyrsio ac ysbytai bellach yn gymwys ar gyfer y mesurau diogelwch. Mae gan yr awdurdod lleol y cyfrifoldeb statudol i drefnu'r asesiadau DoLS mewn Cartrefi Gofal ac awdurdodi Amddifadu o Ryddid os yw'n briodol. Rhaid i'r asesiadau gael eu cynnal gan ymarferwyr cymwys priodol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn feddyg cymeradwy adran 12.

Yn sgil dyfarniad y Goruchaf Lys bu cynnydd sydyn yn y galw am awdurdodiadau DoLS, a heb adnoddau ychwanegol achosodd hynny i geisiadau gronni a chynyddu'r risg y gallai unigolion gael eu hamddifadu o ryddid heb amddiffyniad y gyfraith. Cafodd y sefyllfa hon ei hailadrodd ar draws bron bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae rheoli'r galw am awdurdodiadau DoLS wedi bod yn gryn her ers y dyfarniad.

Ers hynny, mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) wedi cael eu hystyried yn "anaddas i'r diben", yn rhannol am eu bod yn rhy gymhleth a biwrocrataidd, wedi'u gweithredu'n aneffeithiol, ac yn mynnu llawer o adnoddau. Gwelir hyn yn y gofyniad i ailasesu unigolion yn flynyddol, pan fo'n annhebygol y bydd eu hamgylchiadau wedi newid.

Ac ystyried hyn, roedd y trefniadau DoLS i fod i gael eu disodli gan ddeddfwriaeth newydd a'u hailenwi'n **Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid (DARh).** I baratoi am y newid hwn, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid sylweddol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau. Y dyddiad cychwynnol ar gyfer cyflwyno'r DARh oedd Hydref 2020, ond cafwyd oedi i hyn oherwydd pandemig y coronafeirws. Ar 5 Ebrill 2023 cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i roi'r gorau i weithredu'r DARh drwy'r datganiad canlynol:

*"Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bwriad i gamu'n ôl o gyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (y DARh) a gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (Deddf*


*2019). Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau na fydd y ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i weithredu'r DARh yn cael ei chyflwyno o fewn y Senedd hon".*

## 13. Fforwm Rhanbarthol DoLS

Sefydlodd Sir Gaerfyrddin Fforwm Rhanbarthol DoLS Canolbarth a Gorllewin Cymru yn 2017. Mae'r fforwm hwn yn cynnwys Cynghorau Sir Caerfyrddin, Powys, Ceredigion a Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r partneriaid yn sicrhau safonau uchel a chysondeb wrth gymhwyso'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn rhanbarthol.

Gyda chyllid yn gostwng a diffyg cynnydd pellach ar raddfa genedlaethol i diweddaru'r Mesurau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, mae llawer o awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd yn ystyried sut i wella'r modd y cymhwysir y mesurau'n lleol neu'n rhanbarthol. Mae Fforwm Rhanbarthol DoLS Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu dull llai cymhleth, ag ôl meddwl trwyadl, o ymdrin a DoLS sy'n gyfreithlon ac yn gymesur, ac yn sicrhau bod y sawl sy'n cael ei amddifadu o ryddid yn parhau i gael lle creiddiol mewn penderfyniadau. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn treialu'r dull newydd sy'n caniatáu defnyddio asesiadau presennol fwy nag unwaith ac mewn modd cymesur wedi hynny. Mae'r peilot i'w weld yn hynod effeithiol, a bydd yn cael ei werthuso'n llawn yn nhymor yr haf 2025.

### Data Perfformiad Blynyddol DoLS



Mae cartrefi gofal yn gwneud cais am bum math o awdurdodiad DoLS.

1. Awdurdodiad Safonol – I'w gwblhau o fewn 21 diwrnod
2. Awdurdodiad Brys – I'w gwblhau o fewn 5 niwrnod
3. Estyniad i awdurdodiad brys - I'w gwblhau o fewn 5 niwrnod
4. Awdurdodiad Adnewyddu – I'w gwblhau o fewn 21 diwrnod
5. Adolygiad o Awdurdodiad – I'w gwblhau o fewn 21 diwrnod

Mae data perfformiad DoLS uchod yn dangos tystiolaeth o nifer a math yr awdurdodiadau y gofynnir amdanynt. Mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am awdurdodiadau adnewyddu yn deillio o ddull rhagweithiol y tîm DoLS a'r rheolwyr Cartrefi Gofal. Bu ymdrech gydlynol i sicrhau bod ceisiadau adnewyddu yn cael eu derbyn yn brydlon (h.y. cyn eu dyddiad dod i ben). Mae'r nifer fawr o awdurdodiadau a gwblhawyd yn 2024/25 yn tystio i'r dull cymesur newydd sy'n cael ei dreialu yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd.